Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanddoged
# Ysgol Gynradd Llanddoged
# Llanddoged
# LL26 0BJ

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2015**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanddoged. Mae’r cylch yn cyfarfod yn neuadd Ysgol Llanddoged, ger Llanrwst yn Sir Conwy. Sefydlwyd y cylch yn 1975, ail agorwyd ef ym Mehefin 2013 ar ôl cyfnod byr ar gau, ac ailymunwyd â’r cynllun addysg i blant tair oed ym mis Medi 2014.

Mae’r lleoliad yn cynnig addysg feithrin am bedwar bore pob wythnos. Mae lle ar gyfer 16 o blant yn y lleoliad, ac mae 13 ar y gofrestr ar hyn o bryd. Darperir ar gyfer plant tair a phedair oed ac, adeg yr arolygiad, ariennir pump o blant gan yr awdurdod lleol.

Daw tua hanner y plant o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn mynychu’r cylch ar hyn o bryd.

Mae tri aelod o staff cymwysedig a phrofiadol yn gweithio yn y cylch. Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2013.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mehefin 2014 a gan Estyn yn Chwefror 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Maent yn darparu ystod dda o brofiadau ar draws yr holl feysydd dysgu.
- Gwneir defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau plant
- Mae ethos croesawgar a hapus yn bodoli yn y cylch, lle mae pob un yn parchu ei gilydd
- Mae gan y cylch gyflenwad da o adnoddau dysgu o ansawdd uchel

Fodd bynnag:

- Nid yw'r ymarferwyr yn darparu'n ddigon da ar gyfer ymestyn medrau'r plant mwy aeddfed a mwy abl,
- Ychydig iawn o gyfleoedd sydd i blant ddysgu am faterion cynaliadwy, fel ailgylchu a chompostio gwastraff bwyd.
- Prin yw'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol ar gyfer datblygu medrau y plant ar draws yr holl feysydd dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd wedi ymrwymo i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu
- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm
- Cynigir cefnogaeth werthfawr ac effeithiol i'r cylch gan y pwyllgor rheoli.
- Mae'r holl ymarferwyr yn croesawu syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor
- Mae ystod dda o bartneriaethau buddiol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawniad a lles y plant

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cylch yn ymestyn bob plentyn yn gyson er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial

A2 Datblygu'r defnydd o'r ardal allanol er mwyn hybu medrau'r plant ar draws yr holl meysydd dysgu

A3 Sicrhau cyfleoedd i'r plant dysgu sut i arbed ynni, ailgylchu a lleihau sbwriel

A4 Datblygu'r broses hunan arfarnu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliant

A5 Gwella dealltwriaeth yr ymarferwyr o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen trwy ymweld â lleoliadau eraill a mynychu cyrsiau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau a lles**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod dda o brofiadau ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae ymarferwyr yn gosod pwyslais gwerthfawr ar chwarae, ac mae plant yn datblygu trwy dderbyn amrywiaeth o brofiadau uniongyrchol; er enghraifft, mae plant yn mwynhau dysgu am ffermio drwy gael profiad o odro buwch artiffisial yn y dosbarth. O ganlyniad, mae llawer o blant yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd ac yn magu brwdfrydedd at ddysgu mwy am y byd o'u cwmpas.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau plant ymhellach, fel ymweld â fferm leol a gwahodd pobl o'r ardal i sôn am eu gwaith. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau cerddorol plant trwy sesiynau canu rheolaidd gydag aelod o'r gymuned leol.

Mae'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae pob ymarferwr yn defnyddio'r dull o drochi'r plant yn y Gymraeg ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn deall cyfarwyddiadau ac yn ymateb yn briodol wrth gynnal sgyrsiau syml. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i gyfrif ac adnabod rhifau. Er enghraifft, maent yn cyfrif nifer y plant sy'n bresennol bob dydd ac yn adnabod rhifau drwy ddewis rhif i gynrychioli'r dyddiad. Mae cyfleoedd rheolaidd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau creu marciau, er enghraifft ysgrifennu eu henwau mewn cardiau Sul y Mamau. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi llwyddo i gael llechi electronig ac, o ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i gynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion yn ogystal â chyfleoedd i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Ar y cyfan, mae'r cynllunio wedi'i seilio ar ddatblygu medrau penodol ac, o bryd i'w gilydd, yn nodi'r hyn y mae angen i blant ei wneud nesaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer chwarae annibynnol plant a chynllunio ar gyfer gweithgareddau wedi'i arwain gan oedolyn yn ddigon heriol i gefnogi eu dysgu. O ganlyniad, mae ychydig o blant yn colli diddordeb ac yn symud yn aml o un weithgaredd i'r llall.

Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, canu hwiangerddi a rhigymau traddodiadol Cymreig ac ymweliadau yn yr ardal.

## Addysgu: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac mae ganddynt berthynas dda iawn gyda'r plant a'r rhieni. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol ac yn gadarn. Mae ganddynt arferion da ar gyfer derbyn plant newydd sydd yn sicrhau bod y plant hyn yn ymgynefino'n gyflym ac yn teimlo'n hapus a chartrefol.

Mae dealltwriaeth yr ymarferwyr o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol. Mae'r amgylchedd mewnol yn cynnig ystod o brofiadau perthnasol a diddorol sydd yn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant. Maent yn defnyddio adnoddau TGCh yn greadigol er mwyn hybu a chynnal diddordeb y plant; er enghraifft, gwylio ffilm o wartheg ar fferm leol er mwyn helpu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn darparu'n ddigon da ar gyfer ymestyn medrau rhifedd a llythrennedd y plant mwy aeddfed a mwy abl, a phrin yw'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol ar gyfer datblygu medrau y plant ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn dda am ganmol cyflawniad plant a chynnig anogaeth i gwblhau tasgau. Maent yn holi'n gyson ar gyfer asesu gwybodaeth y plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ymyrryd yn briodol er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chynnig her.

Mae ymarferwyr yn arsylwi plant yn gyson ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol ar gyfer cynllunio'r cam nesaf yn eu datblygiad. Mae'r arsylwadau yn cael eu cofnodi'n rheolaidd er mwyn mesur cynnydd ac, yn ddiweddar, mae'r gwaith o asesu plant yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pob aelod o staff. Fodd bynnag, er bod yr ymarferwyr yn cynllunio'n briodol, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o her i'r plant mwy abl.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i ddysgu'r plant i fwyta ac yfed yn iach a'u hannog i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn annog plant i fwynhau bwyta ffrwythau fel bananas, afalau a mefus ac yn cynnig cyfleoedd priodol tu mewn a thu allan iddynt gadw'n heini.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd cyfrifoldeb am eu ymddygiad, rhannu offer a gofalu am adnoddau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i ymestyn annibyniaeth y plant, er enghraifft, yn ystod amser byrbryd. Mae ystod fuddiol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant yn dda. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wella eu dealltwriaeth o waith pobl sy'n ein helpu yn ogystal â chyfle i gasglu arian i elusennau da. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant yn briodol trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae gan y cylch bolisi a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant sy'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Darpara'r cylch yn briodol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Defnyddia’r ymarferwyr ystod o strategaethau effeithiol i fodloni anghenion unigolion, er enghraifft mabwysiadu dull cyfathrebu iaith arwyddion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cofnodi yn ddigon manwl pan fydd gofid am ddatblygiad emosiynol plant. Mae’r cylch yn defnyddio gwasanaeth asiantaethau arbenigol i gynorthwyo ymarferwyr i fynd i’r afael ag anghenion penodol yn effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol addas ar waith ar gyfer yr unigolion sydd eu hangen. Mae’r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac yn cael eu trafod gyda’r rhieni’n gyson.

Ychydig iawn o gyfleoedd sydd i blant ddysgu am faterion cynaliadwy, fel ailgylchu a chompostio gwastraff bwyd.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos croesawgar a hapus yn bodoli yn y cylch, lle mae pob un yn parchu ei gilydd. Mae’n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i’r holl brofiadau dysgu a ddarperir. Mae’r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu’n briodol yn unol â’r wybodaeth honno. Defnyddia’r ymarferwyr strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy’n cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth y plant o ymddygiad da.

Mae gan y cylch gyflenwad da o adnoddau dysgu o ansawdd uchel. Mae’r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi’r dysgu a’r addysgu yn yr ardal dan do. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, prin yw’r adnoddau yn yr ardal allanol ar gyfer datblygu pob maes dysgu. Mae’r lleoliad yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol gynradd leol ac yn rhannu’r ardal chwarae allanol. Mae’r adeilad a’r safle yn ddiogel ac yn cynnig cyfleusterau pwrpasol. Mae’r ymarferwyr yn gosod yr ardaloedd dysgu yn eu lle ar ddechrau bob sesiwn. Er eu bod yn darparu’n effeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd dysgu, nid ydynt yn cynnig tŷ bach twt, dŵr na thywod yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd y plant i chwarae’n ddychmygol ac i ddysgu am gynhwysedd, mesur a phwysau. Ceir arddangosfeydd deniadol o waith y plant, sy’n cefnogi eu dysgu ac yn dathlu eu hymdrechion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn datblygu ei medrau rheoli yn effeithiol ac yn sicrhau ystod dda o brofiadau dysgu i’r plant. Mae wedi cydweithio’n agos a llwyddiannus gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol ers mis Medi 2014 i sefydlu arfer dda'r Cyfnod Sylfaen yn y lleoliad. Mae ganddi weledigaeth fuddiol ar gyfer creu amgylchedd lle mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel, ac yn mwynhau dysgu. Mae yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac, er bod y tîm yn newydd, eu bod yn cydweithio’n effeithiol. O ganlyniad, llwyddwyd i greu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
Mae’r arweinydd wedi creu perthynas dda â rhieni a gofalwyr, a’r ysgol gynradd, sydd yn cyfrannu yn sylweddol at ethos croesawgar y cylch. Fodd bynnag, nid yw bob tro yn cyfleu disgwyliadau digon uchel er mwyn sicrhau bod bob plentyn yn gwneud y cynnydd gorau yn ystod ei amser yn y cylch.

Mae’r pwyllgor rheoli yn awyddus i weld y cylch yn ffynnu a chynnig addysg Gymraeg o safon uchel yn yr ardal. O ganlyniad, maent yn cynnig cefnogaeth werthfawr ac

effeithiol i'r cylch. Mae'r person cofrestredig yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau yn egnïol, er enghraifft, trwy helpu'r arweinydd i osod a chyflawni targedau heriol iddi hi ei hun. Mae hyn yn arwain at welliannau yn safonau'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Mae'r arweinydd yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae ffocws addas ar ddatblygu llythrennedd, rhifedd a medrau iaith Gymraeg y plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r arweinwyr yn datblygu diwylliant effeithiol o hunan arfarnu sydd yn golygu eu bod yn dod i adnabod y cylch yn dda. Mae'r broses hunan arfarnu bresennol yn gymharol newydd ac wedi arwain at greu adroddiad sydd yn nodi cryfderau'r cylch mewn ffordd berthnasol ac adeiladol. Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu eu barn yn briodol trwy drafodaethau anffurfiol ac mae'r arweinydd yn rhannu gwybodaeth am y broses gyda'r pwyllgor rheoli yn rheolaidd.

Mae'r cylch yn gynyddol hyderus wrth benodi blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ac mae cynllun datblygu addas ar waith sy'n nodi camau gweithredu priodol. O ganlyniad, mae'r cylch wedi llwyddo i wella ansawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy gynnig gwell cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau TGCh. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn pennu'r blaenoriaethau a fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar gynnydd yn y cylch. Nid yw'r broses hunan arfarnu a chreu cynllun gwella wedi cael digon o amser i gael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth.

Mae'r person cofrestredig yn cymryd rôl flaengar i gefnogi'r cylch wrth fonitro agweddau ar y ddarpariaeth, gan arwain at welliant mewn safonau ac ansawdd. Er enghraifft, ers mis Medi 2014, mae'r arweinydd wedi sefydlu systemau cadarn o ran cynllunio a rheoli.

Mae ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cadarn i wella'u perfformiad eu hunain. Maent yn barod i wrando ar syniadau newydd, maent wedi ymateb yn gadarnhaol i gymorth gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, ac yn gwneud defnydd da o adolygiadau, er enghraifft gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y cylch bartneriaeth adeiladol a buddiol gyda rhieni. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda'r rhieni am beth mae eu plant yn eu dysgu trwy gyswllt dyddiol, cylchlythyron lliwgar a llyfryn deniadol o waith y plant. Mae'r plant yn elwa o gyfraniad buddiol rhieni tuag at waith y cylch, er enghraifft wrth ddysgu am sut i blannu llysiau yng ngardd yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd leol, sy'n rhannu'r un safle, yn dda. Mae systemau cadarn yn eu lle sy'n sicrhau trosglwyddo llwyddiannus o'r cylch i'r ysgol. O ganlyniad, mae'r plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg.

Mae’r cylch yn ymwneud yn dda â’r gymuned leol ac yn gwahodd pobl o’r ardal i ddod i ymweld â hwy yn gyson.   Er enghraifft, mae’r plant yn dysgu am y byd gwaith trwy ymweliad y postmon ac yn dysgu i ryfeddu trwy ymweliad ffermwr a’i ŵyn bach.

Mae’r bartneriaeth adeiladol sy’n bodoli rhwng y cylch,  athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog cymorth Mudiad Meithrin yn sicrhau datblygiad effeithiol y lleoliad.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Caiff adnoddau yn y cylch eu rheoli a’u defnyddio’n effeithiol.  Mae lefel staffio briodol gan y cylch sy’n cydymffurfio ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn darparu’n effeithiol ar gyfer lles a datblygiad y plant.  Caiff yr ymarferwyr eu defnyddio’n effeithiol i wneud y gorau o’u profiad.  Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau a gwneir defnydd priodol ohonynt.

Mae’r arweinydd yn mynd ati i gaffael gwybodaeth a medrau newydd er mwyn datblygu ei medrau rheolaethol.  O ganlyniad, mae wedi gosod systemau cadarn yn eu lle ar gyfer cynllunio ac asesu, yn ogystal â chreu asesiadau risg safonol.  Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr wedi cael cyfleoedd digonol i ymweld â chylchoedd eraill er mwyn datblygu eu dealltwriaeth.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli presennol ddealltwriaeth glir o’r gyllideb ac mae penderfyniadau gwariant yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion y cylch.  O ystyried yr arweinyddiaeth effeithiol, y defnydd priodol o’r cyllid ac ansawdd da y profiadau dysgu a ddarperir ar gyfer y plant, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |